CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y Cyfarfod:	**6 Mehefin 2022**
Teitl:	**Adroddiad Archwilio Mewnol – Atal Twyll 2021/22**
Pwrpas yr adroddiad:	**Darparu crynodeb i'r Aelodau'r o'r gwaith atal twyll mae archwilio mewnol wedi ei ymgymryd yn 2021/22**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Tai, Pobl a Threfnidiaeth a Diogelu'r Cyhoedd**

Mae Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol yn darparu crynodeb o'r gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth, ac mae'n ymgorffori barn yr adain archwilio.

Yn y gorffennol, roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys rhan ar Dwyll, i roi fraslun o'r gwaith roedd y gwasanaeth wedi ymgymryd ar y testun. Newidiwyd hwn bellach gan Adroddiad ar wahân ar gyfer Atal Twyll sy'n cefnogi'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn.

Nodwyd y gwaith ymgymerwyd ar gyfer y Menter Twyll Genedlaethol yn yr adroddiad: https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/y-fenter-twyll-genedlaethol-yng-nghymru-2018-20

Argymhelliad:	**CYMERADWYO'R Adroddiad**
Rhesymau dros y penderfyniad:	**Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol wedi gwneud gwaith digonol a phriodol yn y testun yma i gefnogi'r Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn**
Atodiadau:	**Adroddiad Archwilio Mewnol – Atal Twyll 2021/22**
Pennaeth y Gwasanaeth:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Alex Jenkins Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol
Dyddiad:	4 Mai 2022

GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

LEGAL & GOVERNANCE SERVICES

GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

INTERNAL AUDIT SERVICE

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD ARCHWILIO 2021/22 – ATAL TWYLL

AUDIT REPORT 2021/22 – COUNTER FRAUD

Paratowyd yr Adroddiad gan: Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mai 2022

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: 6 Mehefin 2022

ADRODDIAD ARCHWILIO 2021/22 – ATAL TWYLL

Cyflwyniad

Mae'n gyfrifoldeb ar Gyngor Sir Ceredigion i ddiogelu arian ddylai gael ei ddefnyddio er budd y cyhoedd. Bydd unrhyw dwyll yn fygythiad i'r Cyngor felly mae cryn ymrwymiad i sicrhau bod strategaeth effeithiol mewn bodolaeth i atal, ddatgelu, a chlustnodi twyll, llygredd a llwgrwobrwyo ac unrhyw gamymddygiad arall fydd yn cynnwys gwyngalchu arian.

Mae gan y Cyngor Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian) sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cyn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor. Cafodd y Strategaeth bresennol ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'i chymeradwyo ganddo ar 3 Mehefin 2021, a chafodd ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021. Caiff ei hategu gan gyfres o bolisïau a gweithdrefnau Codau Ymddygiad, Polisi Chwythu Chwiban ayb er mwyn cydnabod ymrwymiad y Cyngor o ran mynd i'r afael â thwyll a lleihau unrhyw botensial risg neu ddifrod yn sgil twyll

Gwaith Atal Twyll a wnaed gan Archwilio Mewnol

1.1 Mae'n gyfrifoldeb ar holl reolwyr i sicrhau bod trefniadau a rheolau da mewn lle er mwyn atal a darganfod twyll a llygredd. Fel arfer mae achosion o dwyll yn codi os ydy mesurau rheoli'r system, prosesau risg a/neu lywodraethu'n wan, neu'n bodoli ond na chedwir atynt.

1.2 Bydd Archwilio Mewnol yn derbyn sicrwydd oddi wrth wasanaethau penodol fod systemau mewn lle i ddarganfod ac atal llygredd e.e:

- Y Cyngor oedd un o'r rhai cyntaf i fabwysiadu safon e-byst diogel y Llywodraeth er mwyn cynorthwyo wrth leihau risg cyfeiriadau e-byst yn cael eu defnyddio drwy dwyll,
- Mae'r system daliadau'n cynnwys rhaglen feddalwedd fewnol sy'n medru darganfod taliadau dyblyg,
- Gofynnir am ddatganiadau penodol ar gyfer Gostyngiad Person Sengl o ran Treth y Cyngor a chânt eu hadolygu'n flynyddol,
- Gweithdrefnau Darganfod Twyll Mandad mewn lle, a
- Chanoli'r adain daliadau er mwyn lleihau anghysondebau o ran archebion ac anfonebau.

1.3 Nodir y dulliau ar gyfer adrodd unrhyw dwyll, twyll posib, lladrad, anghysondebau, defnydd amhriodol neu gamddefnydd o eiddo neu adnoddau'r Cyngor yn Strategaeth Atal Twyll y Cyngor.

1.4 Gall hyn olygu ymchwiliad gan Archwilio Mewnol (AM). Mae'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol (CMIA) yn Dechnegydd Atal Twyll Achrededig (ACFTech) ac mae'r Rheolwr Archwilio (AM) yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwiliol (CCIP). Bydd y Cyngor o dro i dro hefyd yn hyfforddi grŵp o archwilwyr mewnol ar draws yr holl wasanaethau; ac y mae rhai staff gorfodi wedi derbyn hyfforddiant PACE.

1.5 Mae gan Gynllun Archwilio Blynyddol Archwilio Mewnol adran ar "Atal Twyll" ac y mae gan y gwasanaeth yr hawl i gael mynediad i:

- Fynd ar unrhyw eiddo neu dir y Cyngor ar unrhyw amser rhesymol,
- Holl asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth a systemau rheoli sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y Cyngor,
- Ofyn neu dderbyn gwybodaeth ac esboniadau angenrheidiol parthed unrhyw fater sydd i'w hystyried / archwilio,
- Gofyn i unrhyw weithiwr o'r Cyngor roi cyfrif am unrhyw arian parod, deunyddiau neu unrhyw eiddo arall y Cyngor sydd o dan ei reolaeth, a
- Chofnodion sydd ym meddiant trydydd parti megis contractwyr neu asiantaethau partneriaeth yn unol ag amodau'r contract perthnasol.

Mae hyn yn ffurfio rhan o Reoliadau Ariannol y Cyngor a'r Gweithdrefnau Ariannol Cysylltiedig sy'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.

1.6 Mae'r Cyngor yn cymryd camau gweithredol i fod yn rhan o 'Fenter Twyll Genedlaethol' Archwilio Cymru, sy'n ymarfer paru data cenedlaethol sy'n mynd i'r afael ag ystod eang o risgiau twyll a wynebir gan y sector cyhoeddus. Caiff y gwaith yma ei gydlynu yn y Cyngor gan y Rheolwr Archwilio.

1.7 Ymhellach i waith profi'r Fenter Twyll Genedlaethol y mae ymarferion dadansoddi data pellach sy'n cydweddu â hyn lle y bo'n bosib. Bu i Archwilio Mewnol ddefnyddio system IDEA i ddadansoddi data yn y gorffennol ond ar hyn o bryd mae'n defnyddio meddalwedd ActiveData sy'n gweithio law yn llaw ag *Excel*. Bydd y systemau hyn yn medru perfformio tasgau archwilio perthnasol drwy ddefnyddio technegau paru data atal twyll perthnasol er mwyn cynorthwyo wrth ddarganfod anghysondebau.

1.8 Mae'n bosib y gall dylanwadau allanol all gael effaith ar wasanaethau'r Cyngor hefyd achosi archwiliad arbennig e.e. mae nifer o ymdrechion twyll yn erbyn awdurdodau lleol sy'n ceisio newid manylion cyfrif banc cyflenwr (twyll mandad). Bydd Archwilio Mewnol yn derbyn hysbysiadau oddi wrth CIPFA, NAFN (Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol) a chyrff allanol eraill all hysbysu'r Cyngor o unrhyw dwyll corfforaethol / cenedlaethol cyffredin.

1.9 Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw faterion penodol yn cael eu dwyn at sylw AM yn fuan a gellir ymateb iddo drwy atgyfnerthu systemau rheoli priodol ymlaen llaw.

1.10 Hefyd bydd y CMIA yn cysylltu â phenaethiaid archwilio ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, sy'n cyfarfod yn chwarterol, a byddant hefyd yn dosbarthu unrhyw ohebiaeth i aelodau yn nodi unrhyw ymdrechion /

digwyddiadau twyll maent yn ymwybodol ohonynt. Mae Penaethiaid Archwilio Gogledd Cymru hefyd yn cyfarfod ac yn rhannu'r un wybodaeth.

1.11 Yn ôl Archwilio Cymru bydd yn ofynnol i awdurdodau adrodd manylion o holl achosion o dwyll i'w Harchwilwyr Allanol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

1.12 Pan gaiff achosion o dwyll neu weithgaredd anghyfreithlon arall eu canfod a'u hymchwilio, gall hefyd fod angen i Archwilio Mewnol gynnal archwiliad ar wahân i fynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd a rhoi camau ar waith i gryfhau'r mesurau rheoli. Mae'r camau unioni sy'n ofynnol yn dilyn archwiliadau o'r fath wedi eu nodi yn yr Adroddiadau Cynnydd Chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliadau dilynol lle y bo'n briodol.

1.13 Fodd bynnag, rhaid pwysleisio na all sicrwydd o ran twyll fyth fod yn absoliwt.

Menter Twyll Genedlaethol

2.1 Mae Menter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data sy'n cynorthwyo wrth ddatgelu ac atal twyll. Gweithredir hyn yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â'i bwerau paru data statudol a nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

2.2 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi twyll a gordaliadau ar lefel genedlaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydweithio gyda Swyddfa'r Cabinet, *Audit Scotland* a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau bod y Fenter Twyll Genedlaethol yn weithredol dros Brydain yn gyfan gwbl. Ers i'r Fenter Twyll Genedlaethol ddechrau yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at ganfod ac atal gwerth dros £35.4 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru, a £1.69 biliwn ar draws y DU.

2.3 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn datblygu'n gyson er mwyn parhau i fod yn arf effeithiol ar gyfer canfod ac atal twyll a chamgymeriadau ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'n cydnabod bod twyllwyr bob amser yn chwilio am feysydd newydd i gamfanteisio arnynt a gwneud arian ar draul pobl eraill. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ceisio gwrthsefyll y bygythiad hwn drwy weithio'n gyson gyda'r gymuned atal twyll i ddyfeisio ffyrdd newydd o ddefnyddio data i ganfod twyll ar draws y sector cyhoeddus – ar gyfer problemau twyll sy'n bodoli eisoes a thwyll newydd.

2.4 Mae prif ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn digwydd bob dwy flynedd ar draws setiau data lluosog, gan gynnwys Bathodynnau Glas, Tocynnau Teithio Rhatach, Cynllun Gostyngiad Treth Gyngor, Rhestrau Aros am Dai, Trwyddedau, Cyflogres, Caffael, a Chredydwyr Masnach. Mae paru rhwng data Treth Gyngor â'r Gofrestr Etholiadol yn digwydd bob blwyddyn.

2.5 Ar hyn o bryd mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rôl bwysig yn rhaglen gymorth Covid-19, gan ddarparu ystod eang o gefnogaeth ariannol i fusnesau ac unigolion. Gan fod y Fenter Twyll Genedlaethol bellach yn rhan annatod o strategaethau atal twyll awdurdodau lleol y mae mewn sefyllfa ddelfrydol i ymestyn ei chylch gorchwyl er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i dargedu'r risgiau twyll ychwanegol yma.

2.6 Mae staff yng Ngheredigion wedi ymgymryd â gwaith ar adroddiadau 2020-21 a bydd setiau data newydd ar gael eleni ar gyfer Grantiau Busnes Covid-19. Gall y paru data

hwn olygu bod modd canfod hawliadau a thaliadau twyllodrus ar draws amryw o wasanaethau'r Cyngor, ac mae'n fuddiol o ran lleihau'r perygl o dwyll o fewn yr Awdurdod.

Grantiau Busnes Llywodraeth Cymru

3.1 Bu i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i ddarparu cyfres o grantiau i fusnesau cymwys yn ystod y pandemig.

3.2 Bu i Wasanaethau Cyllid y Cyngor weinyddu'r grantiau yma gan fynd ati i brosesu gymaint â phosib o'r ceisiadau dros gyfnod amser byr iawn, er mwyn sicrhau y gwneir taliadau'n gyflym i'r busnesau hynny oedd angen cymorth.

3.3 Fodd bynnag yn aml iawn pan mae adrannau o dan y fath bwysau mae camgymeriadau'n fwy tebygol o ddigwydd, a gall twyllwyr gael mynediad haws i system. Bu i Cyllid Cyhoeddus nodi'n ddiweddar mewn erthygl bod y cronfeydd arian yma'n "agored iawn i dwyll", oherwydd maint yr arian dan sylw a'r cyflymder y bydd angen ei ddosbarthu". Cadarnhawyd hyn gan eitem ar y cynnydd o dwyll yn erbyn yr Adran Gwaith a Phensiynau ar newyddion y BBC:

Dolen: Universal credit fraud and error at new high - BBC News

3.4 Bu i'r system yma felly gyflwyno risg ychwanegol i'r Cyngor, am fod symiau a dalwyd ar gyfer grantiau Covid-19 gwreiddiol un ai'n £10,000 neu £25,000, gyda meini prawf cymhwysedd llym yn bodoli ar gyfer y rheiny. Cynigiwyd grantiau dilynol gan LlC yn 2021-22 i fusnesau sydd mewn eiddo gyda gwerth ardrethol yn ogystal â grant Dewisol i'r busnesau hynny nad ydynt mewn eiddo o'r fath. Gosodwyd y grantiau ar symiau gwahanol, rhwng £1,000 a £5,000 yn dibynnu ar werth ardrethol yr eiddo a'r math o grant.

3.5 Roedd gan y tîm Cyllid nifer o wiriadau a rheolau mewn lle o fewn eu systemau, megis:

- Roedd angen llanw pob darn o'r ffurflenni cais;
- Ni thalwyd grantiau Ardreth Annomestig Genedlaethol os oedd y cyfeirnod Treth Busnes ar y ffurflen gais am grant yn annilys, neu os oedd cais eisoes wedi'i gyflwyno yn erbyn cyfeirnod Treth Busnes yn ôl y system grant;
- Gofynnwyd am ddatganiadau banc diweddar er mwyn dilysu manylion ymgeiswyr yn erbyn y manylion cyfredol ar y system;
- Rhannwyd dyletswyddau rhwng y broses o gyflwyno cais ac awdurdodi'r arian; a
- Nodwyd manylion taliadau ar daenlenni ac fe'u gwiriwyd am unrhyw ddyblygu.

Yn ogystal, anfonodd y Swyddog Monitro nodyn atgoffa drwy ebost i Aelodau a swyddogion ynghylch yr angen i ddatgan buddiant os oedden nhw'n derbyn grant.

3.6 Ar ôl trafod â'r Tîm Cyllid cytunwyd y byddai Archwilio Mewnol yn cynorthwyo â'r broses rheoli yn bennaf drwy:

- Adolygu sampl o geisiadau oedd ymholiadau yn eu cylch cyn eu talu (am y byddai'n haws atal taliad na hawlio yn ôl unrhyw arian a dalwyd mewn camgymeriad);
- Adolygu unrhyw geisiadau y bu amheuaeth o dwyll yn eu cylch; a
- Chraffu atodlenni taliadau drwy ddefnyddio meddalwedd dadansoddi ActiveData am unrhyw anghysondebau.

3.7 Gwnaed y newid yma i gynlluniau Archwilio Mewnol am ei fod yn ychwanegu gwerth i waith y Cyngor yn sgil amgylchiadau sy'n newid. Fel gwasanaeth roedd yn dangos fod Archwilio Mewnol yn medru ymateb i'r pwysau ar y Cyngor sy'n newid yn gyson ac yn medru asesu ac ymateb i risgiau y bu newid i'r blaenoriaeth. Er ei fod yn ymddangos fod hyn yn gwyro o'r rôl a ddisgwylir yn arferol o Archwilio Mewnol, mae'r Bwrdd Ymgynghorol Safonau Archwilio Mewnol yn cefnogi camau o'r fath mewn sefyllfaoedd tebyg (yn unol â'r canllawiau a dderbyniwyd).

3.8 Mae'r tîm archwilio mewnol wedi treulio nifer o ddyddiau'n cynorthwyo gyda'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn, er mwyn darparu sicrwydd fod camau ychwanegol wedi eu cymryd i leihau twyll. Yn y cyfnod yma bu i Archwilio Mewnol:

- Gwirio nifer o geisiadau a dderbyniwyd a thaliadau a wnaed, er mwyn canfod unrhyw anghysondebau neu ddyblygu,
- Gwnaed gwiriadau am ddyblygu ar rifau cyfeirio, enwau, rhifau cyfrif banc a chyfeiriadau e-bost yn dilyn rhediadau talu gan ddefnyddio ActiveData,
- Gwirio cofnodion am fanylion ymgeiswyr y mae'r Cyngor yn ymwybodol sy'n dwyllwyr am iddynt gael eu hysbysu gan Wasanaethau Data a Gwybodaeth NAFN, ac Awdurdodau Lleol eraill, gan ddefnyddio ActiveData,
- Rhoi gwybod i'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol am unrhyw ebyst gwe-rwydo a dderbyniwyd,
- Dilysu manylion y cwmni gyda Thŷ'r Cwmnïau lle y bo hynny'n briodol, a
- Mynychu cyfarfodydd panel apeliadau i helpu sicrhau bod y penderfyniadau ynghylch ceisiadau'n gyson.

3.9 Mae staff wedi atal sawl ymdrech amheus o ran twyll drwy nodi cyfeiriadau e-bost, datganiadau banc a thystiolaeth ategol amheus wrth asesu a gwirio ceisiadau grant.

3.10 Mae unhyw daliadau amheus o ran twyll a ganfyddir yn cael eu hymchwilio.

3.11 Mae'r gwaith yma'n parhau, am fod siawns bod anghysondebau pellach i'w datrys.

Gwaith Arall a Gwaith Parhaus

4.1 Canfuwyd dau achos gwahanol o amheuaeth o dwyll mandad (pan fydd rhywun yn dynwared trydydd parti megis cyflenwr ac yn mynnu taliad brys) gan y staff Taliadau yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd gwybod i'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol am y ddau achos.

4.2 Dechreuwyd ar ymarfer hir o gynnal gwiriadau ar gredydwyr newydd a sefydlwyd yn ystod y pandemig. Mae Archwilio Mewnol wedi creu taenlen o'r credydwyr hyn a'r taliadau a wnaed i bob un. Mae staff Archwilio Mewnol wrthi ar hyn o bryd yn mynd trwyddi i sicrhau bod y cyflenwyr hyn yn rhai dilys, a'u bod wedi darparu nwyddau/gwasanaethau priodol i'r Cyngor.

4.3 Trefnwyd dau ymarfer Atal Twyll ActiveData tebyg i'r uchod yn 2022/23 fel a nodir yn y Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Mawrth 2022.

4.4 Cyhoeddodd LIC daliadau cymorth Costau Byw yn chwarter 4 2021/22 i'w cyflwyno yn chwarter 1 2022/23. Bydd Archwilio Mewnol yn cefnogi'r tîm Cyllid gyda mesurau Atal Twyll drwy gynnal gwiriadau dyblyg ar gyfeirnodau, enwau, cyfeiriadau, manylion banc a chyfeiriadau e-bost.

4.5 Bu gwasanaeth TGCh y Cyngor yn gweithio gyda Bob's Business, darparwr hyfforddiant seiberddiogelwch i drefnu hyfforddiant i staff ar ymwybyddiaeth o ymosodiadau gwe-rwydo. Bu i'r staff gymryd rhan mewn ymgyrch gwe-rwydo: 'Meddyliwch cyn Clicio'. Pwrpas yr ymarfer oedd addysgu'r rhai a allai ddioddef yn sgil derbyn neges e-bost e-rwydo drwy roi'r wybodaeth berthnasol iddynt i aros yn ddiogel. Bydd hyn yn sicrhau amgylchedd gweithio mwy diogel i bob aelod staff ac yn cadw'r sefydliad yn fwy diogel rhag ymosodiadau seiber.

Casgliadau

5.1 Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i edrych am fesurau atal twyll wrth ymgymryd ag archwiliadau a chynghori rheolwyr ac adrannau am ddulliau o gryfhau'r camau rheoli yma lle y bo hynny'n briodol.